

Mae Iesu'n fy Ngharu

Philipiaid 3:12-14

Geiriau: Cass Meurig
Tôn: Mae 'Nghariad i'n Fenws

piano

D G A D D G A

Mae Ie - su'n fy ngha - ru, mae'n dweud hy - nny'n glir; Nid wyf yn ei hae - ddu, ond dy - na yw'r

Pno.

D Bm G

gwir. Pa ots am farn e - rail? Pa ots beth yw'r

Pno.

A D G A D

Dim ond barn fy Ie - su sy'n cy - frif i mi.

Rwy'n werthfawr i Iesu; ei drysor wyf fi.
Mi dalodd bris uchel ar groes Calfari
I brynu fy mywyd a maddau fy mai;
Does dim byd all wneud iddo 'ngharu fi'n llai.

Nid ydwyf yn berffaith yn awr, Duw a wŷr,
Ond mae Iesu'n fy ngharu a'm meddiannu'n llwyr.
Diamod, dig'wilydd, diderfyn ei hyd -
Nid oes cariad tebyg i'w gael yn y byd.

Anghofiaf pob siom a phob drwg fu o'r blaen,
A 'mestyn yn daer at yr hyn sydd o 'mlaen.
Cyflymaf at Iesu, fy nod ydyw Ef,
A byw yn ei gariad yw'r wobr yn y nef.